

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Fawrth
5 Mawrth 2019 yn Ffestri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Tuesday,
5 March 2019, in Llwynpiod Chapel Vestry, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol / *The chair welcomed everyone to the monthly meeting.*

Presennol/Present

Cyng Rhian Turner (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Emyr Jones, Myrddin James, Gwenfair Owen, Daniel Thomas, Beryl Evans, Eirian Jones, John Evans a Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Gerwyn Ebenezer.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu/Police Report - Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad / *In the absence of a police officer, no report was received.*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / *Proposed*: Cyng John Evans

Eiliwyd / *Seconded*: Cyng Myrddin James

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Trafodwyd ymhellach grant y milwr ar gylchfan Llangeitho a soniwyd bod y clerc wedi derbyn amcan bris oddi wrth cwmni o Llangain am tarmacio oddi amgylch y milwr ond nid oedd neb arall wedi ymateb i'r tendr. Trafodwyd ymhellach a chytunwyd i'r clerc anfon ymlaen y cais gan dderbyn dim ond un amcan bris ar gyfer y tarmacio. Cyfanswm o grant a geisiwyd amdano oedd £5,633.73 (gan gynnwys TAW).
- *The grant to restore the soldier monument on Llangeitho roundabout was discussed once more, and it was noted that the clerk had received a quote from a Llangain company with regards to tarmac around the monument, but that no one else had responded to the tender. After further discussion it was agreed that the clerk send this one and only quote with the grant application. The amount of grant applied for was £5,633.73 (including VAT).*

Gohebiaeth/Correspondence

- Derbyniwyd a chylchredwyd posteri Ben Lake / *Posters from Ben Lake were received and distributed*
- Derbyniwyd a chylchredwyd posteri Elin Jones / *Posters from Elin Jones were received and distributed*
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cadeirydd CND Cymru am 'Claddu Gwastraff Niwclar yng Nghymru' – trafodwyd y llythyr a chytunwyd i beidio cefnogi claddu gwastraff niwclar yng Nghymru ond i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r CND Cymru.
- *An e-mail has been received from the Chair of CND Wales about 'Burying Nuclear Waste in Wales'. The e-mail was discussed and it was agreed that the Council would not support the burial of nuclear waste in Wales; and that the Council would send a letter of support to CND Wales.*

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y Clerc (Ion/Chwef 19) / *Clerk's salary (Jan/Feb 19)* £202.58
- Swyddfa Archwilio Cymru / *Wales Audit Office* £268.00
- Un Llais Cymru / *One Voice Wales* £120.00

Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Gwilym Evans

Eiliwyd/*Seconded*: Cyng/Cllr Beryl Evans

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Cais Cynllunio/Planning application

Ymgeisydd/*Applicant*: Michele Palmer

Safle/*Site*: Talwrn, Llwynygroes, Tregaron

Bwriad/*Purpose*: Erection of cat breeding and boarding facility buildings, alterations to site entrance and unit of holiday accommodation.

Trafodwyd y cais a gan fod y cais yma wedi'u wrthod nol ym mis Medi 2018 gofynnir am gopi o resymau y gwrthodwyd y cais bryd hynny ac i'w ail-drafod yn cyfarfod y Cyngor Cymuned mis nesaf.

The application was discussed and, as this application was refused in September 2018, a request was made for a copy of the reasons given for the refusal of the application at that time. The application will be discussed once more at the next community council meeting.

Gohebiaeth/Correspondence

Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Enfys James, Cydlynnydd Cymunedol – Porth y Gymuned yn gofyn i ddod i'r cyfarfod nesaf i godi ymwybyddiaeth fod gan Gyngor Sir Ceredigion ffyrdd newydd o ddarparu gwybodaeth, Cyngor a chymorth i drigolion Ceredigion, sef Porth y Gymuned, Porth Gofal, Dewis Cymru a CLIC. Cytunwyd iddi fynychu'r cyfarfod nesaf ar 1af o Ebrill 2019 yn Ffestri Capel Penuwch am 8 yh.

Letter received from Enfys James, Community Coordinator – Community Gateway, asking permission to attend the next community council meeting to raise awareness that Ceredigion County Council has new means of providing information, advice and assistance to the residents of Ceredigion, called Community Gateway, Care Gateway, Choose Wales and CLIC. It was agreed that she attend the next meeting on 1 April in Penuwch Chapel Vestry at 8p.m.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi/Nothing to report

Eisteddfod 2020

- Cawl & Chân Neuadd Jiwibili – 08.03.2019 - £10 y tocyn / *Sing-song and Cawl, Jubilee Hall, 8/3/2019, £10 per ticket*
- Pwyllgor Cyllid – Aberaeron 26.03.2019 – 6.30yh / *Finance Committee – Aberaeron, 26/3/2019 – 6.30p.m.*
- Cyfarfod Apêl Cronfa Llangeitho – 2ail Ebrill – Clwb Stags Head 7.30yh / *Llangeitho local appeal meeting – 2 April – Stags Head Club, 7.30p.m.*
- Bingo – Clwb Stags Head – 5ed Ebrill – 7.00/7.30yh / *Bingo, 5 April – Stags Head Club, 7/7.30p.m.*
- Llais Llangeitho – Neuadd Llangeitho – 3ydd o Fai – 7yh / *Llangeitho Voice – Jubilee Hall – 3 May, 7p.m.*
- Trafodwyd cyfrannu swm o arian tuag at 3ydd gwobr Ysgoloriaeth Towyn Roberts a chytunwyd i gyfrannu £1,000, Clerc i drefnu. / *A contribution towards the third prize of the Towyn Roberts Scholarship competition was discussed. It was agreed to contribute £1,000. Clerk to arrange this.*

Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Beryl Evans

Eiliwyd/Seconded: Cyng/Cllr Eirian Jones

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod paneli newydd wedi cyrraedd cysgodfan bws Penuwch i adnewyddu'r hen rhai oedd wedi mynd i edrych yn fudr ac yn ddyran.
- *New panels have arrived for Penuwch bus shelter to replace the old ones which had started to look dirty and unkempt.*
- Soniwyd bod paneli solar cysgodfan bws Penuwch ddim yn gweithio.
- *The solar panels on Penuwch bus shelter do not work.*
- Soniwyd bod y sweeper wedi bod yn glanhau o Tynant, Llwynpiod lawr am Pontprengarreg, Llwynpiod ar 14 Chwefror 2019, rhwng 12.30 a 1.05 yp ac mi roedd y perchnogion wedi creu trafferth iddo drwy waeddu ar y gyrrwr a hefyd sefyll o flaen y peiriant i adael iddo wneud y gwaith, angen adrodd hyn yn ôl i PCSO John Evans.
- *It was noted that the sweeper was cleaning the road from Tynant, Llwynpiod, down towards Pontprengarreg, Llwynpiod, on 14 February 2019, between 12.30 and 13.05. The owners of the latter dwelling shouted at the sweeper's driver and stood in front of the vehicle preventing it from doing its work. This incident needs to be reported to PCSO John Evans.*
- Soniwyd bod y golau stryd ar bwys Tegfryn Llangeitho wedi'u dynnu lawr yn ddiweddar, Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil.
- *The street light near Tegfryn, Llangeitho, has been taken down recently. Cllr Rhodri Evans to make inquires.*
- Reflector ar ben lôn Derlwyn Fach, Llangeitho wedi cwmpo i'r llawr.
- *The reflector at the top of Derlwyn Fach's lane in Llangeitho has fallen down.*
- Soniwyd am yr anifeiliaid oedd yn torri bagiau sbwriel ar groesffordd Llanbadarn Odwyn a byddai modd i'r Cyngor Cymuned brynu biniau pwrpasol i'r lleoliad, trafodwyd y cais ond ni chytunwyd i'r cais.
- *It was mentioned that animals have been breaking into rubbish bags on Llanbadarn Odwyn crossroads. Would it be possible for the Community Council to purchase purposeful bins for this area? This was discussed but the suggestion was rejected.*
- Soniwyd bod y llinellau melyn newydd wedi cyrraedd tu allan i'r Ysgol Gynradd yn Llangeitho.
- *New double yellow lines have been painted outside the primary school in Llangeitho.*

- Bocs grit/halen ar ben lôn Cefnbanadl, Llwynpiod wedi torri ac yn gollwng dwr mewn i'r bocs, angen adnewyddu'r bocs.
- *The grit/salt box at the top of Cefnbanadl lane in Llwynpiod is broken and water can now get into the box. There is need for a new box.*
- Twll yng nghanol y ffordd gyferbyn ac Aeron View, Llangeitho angen ei lenwi.
- *Pothole in the middle of the road, opposite Aeron View, Llangeitho, needs filling in.*
- Derbyniwyd cwyn drwy law un o'r Cynghorwyr nad oedd gwefan y Cyngor Cymuned Llangeitho yn dangos unrhyw fath o gofnodion cyfarfodydd. Cadarnhaodd y Clerc fod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Cymuned i gyd wedi'u llwytho yn y ddwy Iaith ar y gwefan.
- *A complaint was received, via one of the councillors, noting that Llangeitho Community Council's website does not show any of its meetings' minutes. The Clerk confirmed that the minutes of Community Council meetings are uploaded in both languages and are on the website.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Penuwch ar nos Lun 1 Ebrill 2019 am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry, on Monday, 1 April 2019, at 8p.m.